GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales
Y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (CRC)
The International Health Coordination Centre (IHCC)

Polisi ac Iechyd Rhyngwladol
Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

Policy and International Health
World Health Organization
Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being

Cylchlythyr Iechyd Rhyngwladol

Rhifyn 11, Tachwedd 2026



Tîm PAHO yn Ecuador. Anna Stielke yw'r drydedd o'r dde yn y rhes gefn. Llun trwy garedigrwydd Anna Stiekle

PAHO yn Ecuador - Taith Ymchwil i Frechlynnau

gan Anna Stielke (Iechyd Cyhoeddus Cymru)

Ym mis Gorffennaf 2026, teithiodd Anna Stielke, Uwch Swyddog Tystiolaeth a Pholisi Rhyngwladol o fewn tîm Economeg Llesiant a Gwerth (WEAVE) Iechyd Cyhoeddus Cymru, i Quito, Ecuador, i gefnogi cyflwyno cyfres o weithdai rhanddeiliaid cyfranogol.

Ymunodd Anna â'r daith ymchwil fel rhan o gydweithrediad WEAVE â'r Sefydliad Iechyd Pan Americanaidd (PAHO). Mae'r tîm yn cynnal astudiaeth Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi (SROI) ar frechu mamau rhag y ffliw yn Ecuador, er mwyn archwilio gwerth ehangach rhaglenni brechu.

Daeth y gweithdai hyn â chynrychiolwyr ynghyd o'r Weinyddiaeth Iechyd y Cyhoedd, sefydliadau academaidd, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a buddiolwyr y rhaglen, gan gynnwys menywod beichiog.

Drwy drafodaethau wedi'u hwyluso, archwiliodd y cyfranogwyr y newidiadau a'r canlyniadau a ddeilliodd o raglen brechu ffliw mamau, gan nodi'r canlyniadau hynny yr oeddent yn eu hystyried yn fwyaf arwyddocaol, a myfyrio ar unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol anfwriadol.

Drwy nodi a gwerthfawrogi'r canlyniadau sydd bwysicaf i randdeiliaid, bydd yr astudiaeth yn cefnogi penderfyniadau cyllido, buddsoddi a pholisi yn y dyfodol sy'n manteisio i'r eithaf ar effaith gymdeithasol a llesiant y boblogaeth i'r eithaf.

Astudiaeth Ymchwil PAHO

Mae'r astudiaeth yn ceisio deall y canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac iechyd ehangach a gynhyrchir gan y rhaglen a chefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar fuddsoddi a chyllido brechiadau.

Yn ogystal â llywio polisi yn Ecuador, bydd y canfyddiadau'n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth a ddefnyddir gan benderfynwyr Cymru i ystyried gwerth cymdeithasol ehangach brechlynnau a chefnogi gwneud penderfyniadau mwy cynaliadwy a chyfartal.

Gan ffurfio rhan o raglen ehangach a ariennir gan PAHO, nod y gwaith hwn yw cryfhau tystiolaeth ar gyfer buddsoddi mewn iechyd a pholisi brechu ledled yr Amerig.

Yn parhau ar dudalen dau ▶

Yn parhau o dudalen un

Taith ymchwil Ecuador

Bydd canfyddiadau'r astudiaeth yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r Weinyddiaeth Iechyd y Cyhoedd o werth y rhaglen o safbwynt y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol ganddi, gan ategu asesiadau traddodiadol sy'n aml yn canolbwyntio ar gyllidwyr neu ddarparwyr gwasanaethau.

Mae'r dull SROI yn galluogi'r astudiaeth i wneud y canlynol:

- **Deall gwerth o safbwynt unigolion, teuluoedd a chymunedau yr effeithir arnynt gan y rhaglen.**
- **Nodi canlyniadau ac effeithiau na fyddant o bosibl yn cael eu cofnodi drwy fonitro arferol a data gweinyddol.**
- **Sicrhau bod lleisiau rhanddeiliaid, gan gynnwys rhai buddiolwyr, yn cael eu hadlewyrchu ochr yn ochr â safbwyntiau swyddogion y llywodraeth, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a llunwyr polisi.**

Drwy nodi a gwerthfawrogi'r canlyniadau sydd bwysicaf i randdeiliaid, bydd yr astudiaeth yn cefnogi penderfyniadau cyllido, buddsoddi a pholisi yn y dyfodol sy'n manteisio i'r eithaf ar effaith gymdeithasol a llesiant y boblogaeth i'r eithaf.

Cyfle Ariannu i Ddiogelu Coedwigoedd Glaw Trofannol a'i Phobl

Mae Sefydliad Waterloo wedi gwahodd cynigion prosiect ar gyfer mentrau sydd â'r nod o ddiogelu fforestydd glaw trofannol a/neu'r cymunedau sy'n byw ynddynt.

Ar gael ledled y byd, cynigir cyllid mewn dau gategori:

- **Strategol -** sy'n blaenoriaethu prosiectau sy'n dylanwadu ar bolisi - atal datgoedwigo, a hyrwyddo hawliau pobl y goedwig oedd ffocws derbynwyr blaenorol.
- **Lleol -** sy'n darparu ar gyfer mentrau ymarferol a redir gan bobl frodorol (lleol) a/neu gymunedau - mae enghreifftiau'n cynnwys datblygu bywoliaeth gynaliadwy mewn coedwigoedd; rheoli ardaloedd gwarchodedig nad ydynt yn fwy na 10,000 hectar; mynd i'r afael â gyrwyr lleol dros ddatgoedwigo.

Y dyddiad cau yw 1 Tachwedd 2026.

- **Darllenwch ragor amdano yn Sefydliad Waterloo (Saesneg yn unig).**









Adroddiad Blynyddol EuroHealthNet 2025/26

Papurau EuroHealthNet

Daeth dau gyhoeddiad i'r amlwg o gynhadledd yr haf EuroHealthNews a gynhaliwyd yn Warsaw.

Roedd ei Adroddiad Blynyddol - gyda'r is-deitl Moroedd cythryblus, bylchau sy'n ehangu: gweithio dros gymdeithasau iachach a thecach - yn dogfennu gweithgareddau EuroHealthNet o fis Mehefin 2025 i fis Mai 2026.

Yn dilyn hynny, amlygwyd pryderon blaenoriaeth yng Nghynllun Datblygu Strategol EuroHealthNet a oedd yn mynd â'r grŵp o 2026 i 2031.



Cynllun Datblygu Strategol Mehefin 2026 - Mehefin 2031

E-ddysgu Dinasyddiaeth Fyd-eang y GIG

Nid yw iechyd yng Nghymru yn darfod wrth y ffin. Grymoedd byd-eang sy'n ei lunio, ac mae gan ein gweithredoedd ganlyniadau y tu hwnt i'n ffiniau ein hunain. Mae'r Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (IHCC) yn dod â dau fodiwl wedi'u diweddaru i chi.

Modiwl Craidd Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae'r modiwl hwn yn nodi'r hyn mae bod yn ddinesydd byd-eang yn ei olygu, a sut i gymhwyso hynny yn eich rôl chi.

Pam mae'n bwysig i weithwyr gofal iechyd proffesiynol:

- Mae iechyd cleifion yn cael ei lunio gan ffactorau byd-eang y byddwch chi'n dod ar eu traws yn eich ymarfer bob dydd
- Gall tystiolaeth ac arferion da rhyngwladol wella gofal lleol yn uniongyrchol
- Mae deall anghydraddoldebau strwythurol yn arwain at ymarfer tecach sy'n fwy ystyriol o ddiwylliant

Mae'n cefnogi rôl Cymru fel cenedl gyfrifol ac eangfrydig ym maes iechyd byd-eang.

ESR - 000 - GIG Cymru - Modiwl Craidd Dinasyddiaeth Fyd-eang

Dysgu@Cymru - Llesiant y GIG - Rhaglen Dinasyddiaeth Fyd-eang Fel arall chwiliwch am 'Byd-eang'.

Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd

Mae newid hinsawdd yn un o briod heriau iechyd ein hoes. Mae'r modiwl hwn yn ymdrin â'i achosion a'i ganlyniadau. Mae'n edrych ar yr effaith ar iechyd yng Nghymru ac yn fyd-eang, ac yn rhoi enghreifftiau o'r camau a gymerir i fynd i'r afael ag ef.

Erbyn diwedd y modiwl hwn, byddwch yn gallu:

- Disgrifio prif ysgogwyr a chanlyniadau'r heriau mewn perthynas â newid hinsawdd a chynaliadwyedd yng Nghymru ac yn fyd-eang
- Gwerthuso effaith newid hinsawdd ar iechyd

Nodi arferion da o ran cynaliadwyedd a chymhwyso egwyddorion dinasyddiaeth fyd-eang i'ch cyd-destun chi

ESR - 000 - GIG Cymru – Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd

Dysgu@Cymru - Llesiant y GIG - Rhaglen Dinasyddiaeth Fyd-eang Fel arall chwiliwch am 'Byd-eang'.



Kevin Mears (artist), delwedd wedi'i defnyddio gyda chaniatâd Israa Mohammed ar gyfer Partneriaethau Iechyd Byd-eang Cymru

Dysgu o Bartneriaethau Iechyd Byd-eang ar Waith: Buddsoddiad a Rennir, Effaith a Rennir

gan Zuwaira Hashim (Iechyd Cyhoeddus Cymru)

Ar 22 Mehefin 2026, daeth cydweithwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru, byrddau iechyd Cymru, partneriaethau iechyd rhyngwladol ledled Cymru a Lloegr, Partneriaethau Iechyd Byd-eang Cymru, Hub Cymru Affrica a Dolen Cymru ynghyd yn 2 Cwr y Ddinas ar gyfer digwyddiad dysgu ar y cyd ar y thema "Dysgu o Bartneriaethau Iechyd Byd-eang ar Waith: Buddsoddiad a Rennir, Effaith a Rennir."

Rhoddodd y digwyddiad gyfle gwerthfawr i fyfyrio ar effaith ar y cyd partneriaethau iechyd rhyngwladol ac i rannu dysgu ymarferol ar sut mae adeiladu, cynnal a chryfhau cydweithrediadau byd-eang teg. Gan ddod â gweithwyr proffesiynol o bob sector a sefydliad ynghyd, tynnodd y diwrnod sylw at bŵer partneriaeth wrth fynd i'r afael â heriau iechyd byd-eang a rennir wrth feithrin dysgu a budd i bawb.

Drwy gyfres o sgyrsiau ysbrydoledig a chyflwyniadau astudiaethau achos, archwiliodd y cyfranogwyr y cyfleoedd, yr heriau a'r arloesi a ddigwyddodd mewn partneriaethau yr oeddent yn rhan ohonynt. Rhannodd siaradwyr fyfyrdodau gonest ar y gwersi a ddysgwyd, cyflawniadau a wireddwyd a dulliau sydd wedi helpu i greu effaith ystyrlon, hirdymor. Thema gref drwy gydol y dydd oedd pwysigrwydd tegwch, cytbwysedd a rhanberchnogaeth wrth adeiladu partneriaethau sy'n darparu buddion i bawb sy'n gysylltiedig. Dangosodd y digwyddiad gryfder ymrwymiad Cymru i undod byd-eang a sut y gall cydweithio rhyngwladol gyfrannu at ganlyniadau iechyd gwell yn lleol ac yn fyd-eang. Roedd yn adlewyrchu uchelgais Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i fod yn genedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang ac sy'n gweithio mewn partneriaeth i wella llesiant y tu hwnt i'w ffiniau.

Ymhlith y cyflwynwyr roedd tri thîm o'r Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol: Y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (IHCC), Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC), a Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRi).



Y Gwersi gan Bartneriaethau Iechyd Byd-Eang: Cyd-fuddsoddi ac effaith

Rhan Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn Digwyddiad Dysgu ar y Cyd

Tynnodd yr IHCC sylw at ei rôl wrth gysylltu GIG Cymru â rhwydweithiau, tystiolaeth ac arbenigedd rhyngwladol, gan alluogi sefydliadau ledled Cymru i ddysgu o arferion gorau byd-eang a chyfrannu at ymdrechion rhyngwladol i wella iechyd.

Cyflwynodd tîm WHESRi ganfyddiadau o'u hadroddiad diweddar, ***'Cryfhau Iechyd gyda Phartneriaethau Rhyngwladol Teg: Dysgu Allweddol ac Arferion Gorau'***.

Mae'r adroddiad yn nodi egwyddorion allweddol a dulliau ymarferol sy'n cefnogi datblygiad partneriaethau iechyd rhyngwladol llwyddiannus, cynaliadwy a theg. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd budd i'r ddwy ochr, gwneud penderfyniadau ar y cyd, meithrin ymddiriedaeth ac ymrwymiad hirdymor fel sylfeini ar gyfer cydweithio effeithiol.

Yn bwysig, daethpwyd â chanfyddiadau'r adroddiad yn fyw drwy gydol y digwyddiad. Roedd y profiadau a rannwyd gan arweinwyr partneriaethau ac ymarferwyr yn adleisio llawer o negeseuon allweddol yr adroddiad, gan ddarparu enghreifftiau go iawn o sut y gall partneriaethau teg greu gwerth parhaol i unigolion, sefydliadau a chymunedau.

Atgyfnerthodd yr aliniad hwn rhwng tystiolaeth ac ymarfer corff cynyddol o wybodaeth am yr hyn sy'n gwneud partneriaethau iechyd rhyngwladol yn effeithiol. Amlygodd y cyfraniad sylweddol y gallant ei wneud at hyrwyddo tegwch iechyd a llesiant byd-eang.

Wrth i gydweithio rhyngwladol barhau i dyfu o ran pwysigrwydd, mae digwyddiadau fel hyn yn chwarae rhan hanfodol wrth greu mannau ar gyfer dysgu ar y cyd, cryfhau rhwydweithiau a sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod wedi'i wreiddio mewn tegwch, cynaliadwyedd ac effaith ar y cyd.

Croeso Cymreig i Fyfyrwyr Nyrsio o Grenada

Teithiodd chwe myfyriwr nyrsio o Grenada i Gymru yn ddiweddar mewn cynllun peilot cydweithredol rhwng dwy academi.

Yn dod o Brifysgol San Siôr yn Grenada, cyrhaeddodd y nyrsys Brifysgol Caerdydd ym mhrifddinas Cymru. Dan ofal Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Caerdydd, a Diana De (Darllenydd mewn Nyrsio Oedolion, arweinydd Dinesig Byd-eang ac aelod o'r Grŵp Gweithgarwch Iechyd Rhyngwladol) fe gychwynnodd y cysylltiad.

Gwahoddwyd y myfyrwyr nyrsio o Grenada i ymweld ag Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd. Trefnodd Israa Mohammed, Amanda Daniel a'i chydweithwyr (Diogelu Iechyd) sesiynau yn ymdrin â heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd, anghydraddoldebau iechyd a brechu, diogelu iechyd, a rôl Cymru mewn iechyd byd-eang.

Ymhlith siaradwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru roedd Jasmin Chowdhury, Rose Jones, Liz Green a Laura Holt.

Dywedodd Diana De, "Fel y gallwch weld (o'r adborth isod), cafodd y cynllun peilot cydweithredol hwn ei werthuso'n gadarnhaol gan y myfyrwyr a oedd yn ymweld ac mae'r rhai a oedd yn cymryd rhan bellach yn edrych ar ffyrdd o ailadrodd a chynnal y gwaith partneriaeth fyd-eang cynhwysfawr hwn."

Ymarferwyr AEI yn Ceisio Newid y Gyfraith yn Seland Newydd

Mae briff newydd yn galw ar ddeddfwyr i wneud Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (AEI) yn statudol yn Seland Newydd fel y mae ar fin dod yn wir yng Nghymru y flwyddyn nesaf.

Cyd-awduron ***'Dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd fod yn rhan orfodol o lunio polisïau'*** yw Anna Stevenson (Meddyg Iechyd y Cyhoedd - Te Whatu Ora Waitaha a Phrifysgol Auckland), yr Athro Liz Green (Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd - Iechyd Cyhoeddus Cymru), Robert Quigley (Ymgynghorydd a Chyd-sylfaenydd - Quigley and Watts Ltd.), yr Athro Louise Signal (Prifysgol Otago) a'r Athro Michael Baker (Meddyg Iechyd y Cyhoedd ac Epidemiolegydd - Prifysgol Otago).

Nod allweddol Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (AEI) yw llywio polisi a phenderfyniadau ymarferol i wella a diogelu iechyd y boblogaeth, lliniaru effeithiau negyddol anfwriadol a hyrwyddo tegwch.

Mae'r briff yn tynnu sylw at y ffaith bod gan Seland Newydd hanes o AEI a gall adeiladu ar y platfform hwnnw i gryfhau ei hiechyd ym mhob ymateb polisi i fynd i'r afael ag anghenion a materion iechyd a thegwch brys



Adborth!

Myfyriwr nyrsio o Grenada yn siarad:

Un o uchafbwyntiau'r rhaglen oedd sesiwn iechyd y cyhoedd gyda chynghorwyr y llywodraeth, uwch nyrsys, a phenaethiaid amrywiol raglenni gofal iechyd.

Fel myfyriwr, roedd yn fraint bod yn yr ystafell gyda gweithwyr proffesiynol mor brofiadol. Roedd y sesiwn yn rhyngweithiol, addysgiadol ac ysbrydoledig iawn, a dysgais lawer iawn o'r trafodaethau a'r cyflwyniadau.

Manteision Iechyd Rhyngwladol i Bobl Cymru

Y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd

> **Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yn gweithio a'r manteision i Gymru a thu hwnt wedi'u hamlinellu mewn ffordd fer a llawn gwybodaeth.**
>
> **Yr Athro Liz Green, Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU)**

> **Offeryn gwych i ddangos i'r cyhoedd faint o ffyrdd y mae Cymru'n sefyll ar lwyfan byd-eang o ran iechyd y cyhoedd.**
>
> **Cara Davies, Cydlynydd Hwb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE)**

> **Doeddwn i ddim yn ymwybodol faint yr oedd Cymru'n ei wneud dros ofal iechyd byd-eang.**
>
> **Kay Kendall, aelod o'r cyhoedd**



Mae fideo gwybodaeth animeiddiedig wedi'i lansio i ddangos cyfranogiad Cymru mewn iechyd byd-eang, a sut mae effaith y genedl yn taro ymhell y tu hwnt i'w phwysau.

Mae'r animeiddiad (yn Gymraeg neu'n Saesneg) yn sôn am sut mae Cymru o fewn y byd - wedi'i heffeithio gan ofnau gofal iechyd rhyngwladol, a bod ar ei ennill o ddatblygiadau iechyd a wneir yr un le o amgylch y byd.

Wedi'i anelu at gynulleidfa darged o bawb, mae'r naratif yn hawdd ei ddeall y tu hwnt i'w sector academaidd a phroffesiynol.

Comisiynwyd y rhaglen fer gan Y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd, rhan o gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fe'i crëwyd gan Savage and Gray Design (Saesneg yn unig) o Gaerdydd.

Digwyddiadau a Chynadleddau i Ddod

18 TACHWEDD 2026

Fforwm Iechyd Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhithwir (Microsoft Teams)

Rhoi iechyd mamau ar yr agenda iechyd byd-eang

Cofrestrwch ar gyfer Fforwm Iechyd Cyhoeddus Rhyngwladol

19 TACHWEDD 2026

5ed Gynhadledd Iechyd Byd-eang Dwyrain Lloegr

Coleg Robinson,
Prifysgol Caergrawnt, Lloegr
9am-5pm (GMT)

Partneriaethau sy'n Cyflawni: Iechyd Byd-eang Teg, Effeithiol a Chynaliadwy

Cofrestrwch ar gyfer Cynhadledd Iechyd Byd-eang

30 TACH - 2 RHAG 2026

Uwchgynhadledd The Lancet

Sitges, Sbaen

Llunio Dyfodol Atal Diabetes

Cofrestrwch ar gyfer Uwchgynhadledd Lancet

8 - 9 RHAGFYR 2026

19eg Uwchgynhadledd ac Arddangosfa Gofal Iechyd Byd-eang, Meddygaeth Ataliol ac Iechyd y Cyhoedd (Healthcare UCG)

Gwesty AC gan Marriott,
Kuala Lumpur, Malaysia

Hyrwyddo Gofal Iechyd Trwy Arloesi, Gwaith Ataliol, a Rhagoriaeth Iechyd y Cyhoedd

Cofrestrwch ar gyfer 19eg Healthcare UCG

Cysylltu â ni

Unrhyw straeon, cyhoeddiad neu newyddion iechyd byd-eang? Ymchwil i'w rhannu - adroddiad newydd; cyhoeddiadau diweddar; a'r cyhoeddusrwydd sydd ei angen ar gyfer prosiectau ac ymgyrchoedd. Ydych chi'n cynllunio digwyddiad?

Er mwyn i'ch eitem ymddangos mewn cylchlythyr sydd ar ddod, anfonwch e-bost at: Laura Holt | Jo Harrington

Sganiwch y Cod QR i E-bostio

Cynhyrchir y cylchlythyr hwn gan y Ganolfan Rhyngwladol Cydlynu Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru at ddibenion gwybodaeth yn unig. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir gan gyfranwyr o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r cynnwys yn gywir adeg ei gyhoeddi ond gall fod yn destun newid.